CCDC Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru
DIAW Digital Inclusion Alliance Wales


# Archwilio Effaith


## Blaenoriaeth 4: Blaenoriaethu sgiliau hanfodol ar gyfer gwaith a bywyd yn yr economi


Rhagfyr 2023


# Canlyniadau Meintiol o'r Arolwg


- Cafwyd 46 o ymatebion i'r arolwg.
- Dim ond 13% o’r ymatebwyr sy’n cytuno neu’n cytuno’n gryf bod y ddarpariaeth bresennol o hyfforddiant sgiliau digidol i oedolion yng Nghymru yn ddigonol.
- O’r sefydliadau hynny sydd wedi cynnal archwiliad o sgiliau digidol staff a gwirfoddolwyr (17), defnyddiodd 81% y wybodaeth honno i wneud penderfyniadau sy’n seiliedig ar ddata ynglŷn ag ymyriadau sgiliau digidol.
- Dim ond 17% o’r ymatebwyr sy’n teimlo bod busnesau a sefydliadau ledled Cymru yn hyfforddi ac yn uwchsgilio eu gweithlu mewn sgiliau digidol.
- Roedd 70% o’r ymatebwyr yn ansicr ynglŷn â chydlynu ymyriadau sgiliau digidol sy’n cael eu hariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Roedd 76% o’r ymatebwyr yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod y DIAW yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddarpariaeth hyfforddiant sgiliau digidol yng Nghymru.
- Mae 67% o’r ymatebwyr yn perthyn i grwpiau neu bartneriaethau sy’n trafod hyfforddiant sgiliau digidol.






Mae fy sefydliad wedi cynnal archwiliad o sgiliau digidol staff a/neu wirfoddolwyr.
25
20
15
10
5
0
Ydw
Nac ydw
Ddim yn gwybod


Os mai 'Ydyn' oedd eich ateb, ewch i C2: Mae fy sefydliad wedi defnyddio'r data o'r archwiliad sgiliau digidol i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata ynglŷn â hyfforddiant sgiliau digidol ar gyfer staff a/neu wirfoddolwyr.
8
7
6
5
4
3
2
1
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf


Mae busnesau a chyflogwyr o bob sector ledled Cymru yn hyfforddi ac yn uwchsgilio eu gweithlu mewn sgiliau digidol craidd.
18
16
14
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn gwybod
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf


Mae gweithgareddau cynhwysiant digidol sy'n cael eu hariannu gan Y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu cydlynu i osgoi dyblygu.
18
16
14
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn gwybod
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf


Mae Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarparu mentrau sgiliau digidol yng Nghymru.
35
30
25
20
15
10
5
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn gwybod
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf


Ydych chi'n aelod o unrhyw fyrddau/partneriaethau/grwpiau lle rydych chi'n trafod hyfforddiant sgiliau digidol?
15
31
Ydw
Nac ydw

# Dadansoddi Cynnwys Dogfennau Strategaeth a Pholisi

- Chwiliwyd dogfennau am y termau allweddol: cynhwysiant digidol, allgáu digidol, Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, cysylltedd (digidol), hygyrchedd (digidol), a sgiliau (digidol).

| | Cynhwysiant Digidol | Allgáu Digidol | Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru | Cysylltedd (Digidol) | Hygyrchedd (Digidol) | Sgiliau (Digidol) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Ddigidol i Gymru, Llywodraeth Cymru (2021) | 14 | 5 | 0 | 21 | 4 | 40 | 77 |
| Strategaeth Ddigidol i Gymru: Cynllun Cyflawni, Llywodraeth Cymru (2021) | 2 | 1 | 0 | 7 | 0 | 14 | 23 |
| Rhagolwg Cynhwysiant Digidol, Llywodraeth Cymru (2020) | 23 | 23 | 0 | 15 | 0 | 26 | 73 |
| Strategaeth Ddigidol 2023-27, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 0 | 1 | 0 | 3 | 8 | 4 | 15 |
| Strategaeth Ddigidol 2020-24, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | 2 | 0 | 8 | 7 | 10 | 31 |
| Strategaeth Ddigidol 2019-23, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 3 | 7 |
| Strategaeth Ddigidol, Cyngor Caerdydd | 1 | 0 | 0 | 0 | 8 | 1 | 10 |
| Strategaeth Ddigidol 2021-24, Cyngor Sir Gaerfyrddin | 0 | 1 | 0 | 33 | 3 | 2 | 41 |
| Strategaeth Ddigidol 2018-22, Cyngor Sir Ceredigion | 3 | 0 | 0 | 3 | 3 | 10 | 19 |
| Strategaeth Ddigidol 2022-27, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 2 | 0 | 0 | 9 | 7 | 6 | 23 |
| Strategaeth Ddigidol, Cyngor Sir Ddinbych | unavailable | | | | | | |
| Strategaeth Ddigidol, Cyngor Sir y Fflint | 2 | 0 | 0 | 5 | 2 | 3 | 12 |
| Strategaeth Ddigidol 2023-28, Cyngor Sir Gwynedd | 4 | 1 | 0 | 7 | 1 | 16 | 28 |
| Strategaeth Ddigidol 2017-21, Cyngor Sir Ynys Môn | 2 | 0 | 0 | 13 | 2 | 6 | 23 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Ddigidol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | unavailable | | | | | | |
| Strategaeth Ddigidol, Cyngor Sir Fynwy | unavailable | | | | | | |
| Strategaeth Ddigidol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 4 | 3 | 1 | 3 | 8 | 9 | 26 |
| Strategaeth Ddigidol 2022-27, Cyngor Dinas Casnewydd | 10 | 2 | 1 | 8 | 6 | 13 | 39 |
| Strategaeth Ddigidol, Cyngor Sir Penfro | unavailable | | | | | | |
| Strategaeth Ddigidol 2019-25, Cyngor Sir Powys | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 7 | 10 |
| Strategaeth Ddigidol 2022-26, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 13 | 1 | 0 | 5 | 7 | 20 | 44 |
| Strategaeth Ddigidol 2023-28, Cyngor Sir a Dinas Abertawe | 1 | 1 | 0 | 3 | 6 | 7 | 18 |
| Strategaeth Ddigidol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 0 | 0 | 3 | 4 | 12 | 21 |
| Strategaeth Ddigidol 2023-28, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | 1 | 3 | 0 | 4 | 9 | 28 | 45 |
| Strategaeth Ddigidol 2020-23, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0 | 0 | 0 | 4 | 7 | 9 | 20 |

# Astudiaethau Achos

**Astudiaeth Achos – Hyder Digidol Sir Ddinbych**
**Ema Williams, Swyddog Hyfforddi a Datblygu**

**Dywedwch ychydig am y prosiect / rhaglen**
Prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU trwy Gyngor Sir Ddinbych yw Hyder Digidol Sir Ddinbych. Nod y prosiect yw gwneud trigolion Sir Ddinbych mor hyderus â phosib yn ddigidol. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu am flwyddyn o fis Tachwedd 2023. Mae'r tîm yn cynnwys tri aelod o staff penodedig, ar lawr gwlad, a rheolwr.

**Pa rai o'r canlyniadau ar gyfer Blaenoriaeth 4 o'r** [‘Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch 2il Argraffiad’](#) **ydych chi'n meddwl ei fod yn gweithio tuag ato?**
Canlyniad 1: Hyfforddiant sgiliau digidol sylfaenol priodol a pharhaus a meithrin hyder ar gael i bob oedolyn. Mae angen i hyn fod wyneb yn wyneb lle mae angen; nid yw'n ddigon i roi adnoddau dysgu ar-lein a thybio y gall ac y bydd y bobl sydd eu hangen yn gallu cael gafael arnynt ac yn eu defnyddio.
Mae'r prosiect yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth wyneb yn wyneb ac ar-lein mewn sesiynau mynediad agored, wedi'u trefnu a sesiynau galw heibio i drigolion Sir Ddinbych ar amrywiaeth o bynciau o hanfodion mynd ar-lein i ddiogelwch ar-lein a hygyrchedd yn ogystal â meysydd arbenigol eraill. Maen nhw'n gweithio gyda sefydliadau er mwyn cael atgyfeiriadau yn ogystal â defnyddio dulliau marchnata traddodiadol megis taflenni a hysbysebu mewn papurau lleol i sicrhau eu bod yn cyrraedd amrywiaeth eang o bobl.

Canlyniad 4: Mae data a gesglir gan fframweithiau galluogrwydd, archwiliadau sgiliau digidol ac ymchwil arall yn arwain at ymrwymiad ariannu sy'n mynd i'r afael â'r rhain, ynghyd ag ymyriadau a gynhyrchir ar y cyd.
Gan fod hwn yn brosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin sy'n cael ei redeg trwy Gyngor Sir Ddinbych, mae'r prosiect yn rhoi gwybod i'r Cyngor faint o bobl sy'n cael eu cefnogi, ond maen nhw hefyd yn casglu data ar ba mor hyderus yn ddigidol yw'r bobl y maen nhw'n eu cefnogi yn ei deimlo cyn ac ar ôl yr hyfforddiant a'r gefnogaeth.

Canlyniad 5: Bargeinion Twf a Rhanbarthau Dinesig yn gweithio i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn parhau yn flaenoriaeth o fewn ffrwd gyllido'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a bod gweithgareddau cynhwysiant digidol yn cael eu cydlynu osgoi dyblygu.
Fel y soniwyd eisoes, mae'r prosiect hwn yn brosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin, sy'n cael ei gydlynu drwy'r Cyngor lleol a'r Bargeinion Twf a Rhanbarthau Dinesig. Mae cynghorau eraill wedi mynegi diddordeb yn y prosiect a'r gobaith yw y bydd y model hwn yn cael ei ailadrodd mewn mannau eraill.

**Sut mae bod yn rhan o DIAW wedi helpu'r prosiect penodol hwn?**
Cyn ymuno â'r prosiect hwn, roeddwn i'n hyfforddwr cynhwysiant digidol a dim ond gyda'r bobl yr oeddwn yn eu hyfforddi a fy nghydweithwyr roeddwn i'n rhyngweithio mewn gwirionedd, felly roeddwn i yn fy myd bach fy hun i raddau. Mae bod yn rhan o DIAW yn rhoi'r cyfle i mi gysylltu â phobl mewn sefydliadau eraill, pobl sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n angerddol am yr un pethau ag ydw i.  Mae hefyd yn caniatáu i fy nhîm gwrdd â phobl eraill sy'n gwneud yr un gwaith mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Gallwch deimlo'n eithaf ynysig wrth weithio mewn un sir yn unig felly mae'n ddefnyddiol cael cwrdd â phobl eraill o bob rhan o Gymru er mwyn ehangu ein gorwelion o ran yr hyn y gallwn ei gyflawni yma.

**Ydych chi'n credu bod DIAW wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o ymyriadau sgiliau digidol yn fwy cyffredinol yng Nghymru?**
Ydw, yn bendant. Hyd yn oed cyn i mi ymuno â'r prosiect hwn, pan oeddwn yn mynd i gyfarfodydd DIAW roeddwn i bob amser yn gadael yn teimlo wedi fy ysgogi a'i fod wedi cadarnhau fy rhesymau dros wneud y gwaith hwn. Rwy'n credu bod clywed agweddau pobl tuag at ymyriadau sgiliau digidol a dulliau a safbwyntiau gwahanol yn ysgogol. Yn enwedig fel hyfforddwr oherwydd, fel y dywedais, rwy'n gweld y bobl rwy'n eu hyfforddi, ond dydw i ddim yn gweld y gwaith sydd wrth wraidd hynny. Rydych chi'n darganfod yn DIAW bod cymaint o bobl yn gwneud yr hyn rydych chi'n ei wneud ac mae'n eich ysbrydoli i wneud mwy felly rwy'n meddwl ei fod yn cael effaith.

---

**Astudiaeth Achos – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**
**Michelle Hickin, Rheolwr Cynhwysiant Digidol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

**Dywedwch ychydig am y prosiect / rhaglen**
Mae tîm Cynhwysiant Digidol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mewn partneriaeth â Chymunedau Digidol Cymru, wedi datblygu blwyddyn o weithgarwch cynhwysiant digidol ar gyfer gweithlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r tîm yn edrych ar sgiliau at bwrpas gwaith ond hefyd y sgiliau personol sydd eu hangen ar gyfer bywyd. Maen nhw ystyried mai ni yw'r gweithlu heddiw ond cleifion yfory o bosibl. Sut ydyn ni'n ymgysylltu â gwasanaethau os nad ydyn ni'n hyderus yn ddigidol?

Mae'r tîm wedi addasu hyfforddiant cyffredinol Cymunedau Digidol Cymru er mwyn cynnwys sgiliau a gwybodaeth sy'n benodol i Hywel Dda.  Er enghraifft, fe wnaethon nhw ddefnyddio sesiwn hyfforddi costau byw cyffredinol Cymunedau Digidol Cymru ac ymgorffori gwybodaeth sy'n benodol i Hywel Dda - gan gynnwys ap Hapi (yr ap ar gyfer buddion staff), gwybodaeth am y cerdyn golau glas, a gwybodaeth am y cynllun aberthu cyflog fel bod gan y gweithlu'r wybodaeth am sut y gall Hywel Dda eu cefnogi yn ystod yr argyfwng costau byw, yn ogystal â meithrin sgiliau am oes i'w helpu drwy'r argyfwng costau byw.

**Pa rai o'r canlyniadau ar gyfer Blaenoriaeth 4 o'r [‘Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch 2il Argraffiad’] ydych chi'n meddwl ei fod yn gweithio tuag ato?**

Canlyniad 1: Hyfforddiant sgiliau digidol sylfaenol priodol a pharhaus a meithrin hyder ar gael i bob oedolyn. Mae angen i hyn fod wyneb yn wyneb lle mae angen; nid yw'n ddigon i roi adnoddau dysgu ar-lein a thybio y gall ac y bydd y bobl sydd eu hangen yn gallu cael gafael arnynt ac yn eu defnyddio.

Mae'r model yn cynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein ac maen nhw'n gweithio i ddod o hyd i'r rhai sydd angen cymorth trwy gynnig sesiynau mawr agored ond hefyd yn rhoi hyfforddiant un i un neu mewn grwpiau bach i'r rhai sy'n gofyn amdano.

Canlyniad 2: Mae cyflogwyr yn cynnal archwiliad sgiliau digidol o weithwyr cyflogedig ar draws Cymru a defnyddio'r data a gesglir i ddod i benderfyniadau yn seiliedig ar y data ynglŷn ag ymyriadau sgiliau digidol.

Mae archwiliad o sgiliau digidol gweithlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cael ei gynnal fesul tîm. Mae hyn yn golygu y gellir rhoi adborth penodol a hyfforddiant ar waith ar unwaith i'r rhai sydd ei angen yn dilyn yr archwiliad. Mae hyn yn creu darlun o'r bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd dros gyfnod o amser ond mae hefyd yn golygu bod llawer mwy o ymgysylltu â'r archwiliad a'r ymyriadau sy'n cael eu cynnig.

Canlyniad 3: Busnesau a chyflogwyr o bob sector ledled Cymru yn hyfforddi ac yn uwchsgilio eu gweithlu mewn sgiliau digidol craidd.

Mae tîm Cynhwysiant Digidol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gweithio'n benodol i hyfforddi ac uwchsgilio eu gweithlu mewn sgiliau digidol ar gyfer gwaith a bywyd.

Canlyniad 4: Mae data a gesglir gan fframweithiau galluogrwydd, archwiliadau sgiliau digidol ac ymchwil arall yn arwain at ymrwymiad ariannu sy'n mynd i'r afael â'r rhain, ynghyd ag ymyriadau a gynhyrchir ar y cyd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn arwain y sector drwy ddatblygu ac ariannu tîm cynhwysiant digidol penodol, gan gynnwys swyddog a rheolwr sy'n gweithio'n benodol ar gynhwysiant digidol eu gweithlu. Trwy ddefnyddio ffocws tîm lleol, mae'r tîm Cynhwysiant Digidol yn gallu teilwra'r ymyriadau sgiliau digidol sy'n cael eu cynnig yn seiliedig ar y data a gasglwyd er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i'r staff sy'n gweithio gyda nhw. Maen nhw'n ymgysylltu â'r timau er mwyn deall, trwy ddata yr archwiliad a sgyrsiau gyda nhw, ble mae'r bylchau yn eu sgiliau a'u gwybodaeth a chynllunio ymyriadau sy'n gweithio iddyn nhw.

**Sut mae bod yn rhan o DIAW wedi helpu'r prosiect penodol hwn?**

Mae'n sicr wedi helpu.Mae rhannu syniadau, siarad am rwystrau y mae pobl yn eu hwynebu a'r holl bethau hynny sydd gan y Gynghrair i'w cynnig wedi caniatáu i ni ddeall yr hyn sydd angen i ni ei wneud ond hefyd i allu cydweithio a dysgu oddi wrth eraill er mwyn i ni wneud yr hyn yr ydym yn ei wneud yn awr ac addasu a newid yn barhaus wrth fynd yn ein blaenau. Nid yw'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn syniad newydd, rydyn ni wedi dysgu oddi wrth eraill ac wedi datblygu'r gefnogaeth rydyn ni'n teimlo sydd ei hangen ar bobl rydyn ni'n eu cefnogi ac sy'n gweithio iddyn nhw. Mae hefyd yn gyfle i rannu'r hyn rydyn ni'n ei wneud, i rannu'r model rydyn ni'n ei ddefnyddio i geisio ysbrydoli a dylanwadu ar eraill.

Rydyn ni'n awyddus i rannu a chasglu gwybodaeth am gynhwysiant digidol. Heb y Gynghrair, byddai pobl yn gweithio ar gynhwysiant digidol ar eu liwt eu hunain ac mae'n bosibl na fyddai'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn wedi'i gyflawni o gwbl. Mae angen dull cydweithredol ar

gyfer y gwaith hwn. Ni fydd yn gweithio os nad ydym yn cydweithio. Mae'r Gynghrair yn darparu'r cyfleoedd ac yn cefnogi pob aelod i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

**Ydych chi'n credu bod DIAW wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o ymyriadau sgiliau digidol yn fwy cyffredinol yng Nghymru?**

Mae'r Gynghrair yn rhan annatod o sicrhau ein bod yn parhau i siarad am anghenion pobl Cymru. Wrth i'r Gynghrair dyfu mae mwy o bobl yn dechrau sylweddoli bod angen iddyn nhw fod yn rhan ohoni, ac na fydden ni'n gallu gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud hebddi. Rwy'n credu bod y Gynghrair wir yn cryfhau'r neges ynglŷn â chynhwysiant digidol ledled Cymru ac yn cryfhau'r sgyrsiau a'r cydweithio. Mae cymaint mwy eto i'w wneud ac mae'r Gynghrair yn allweddol er mwyn cydlynu'r cyfan.

CCDC DIAW
Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru
Digital Inclusion Alliance Wales

# Diolch am ddarllen.

**Cysylltwch: diaw@cwmpas.coop**

**Dilynwch ni: @DIAWales**

cwmpas

Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme

Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles

Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being